#talwrn
grymuso | menter | effeithiolrwydd
empowerment | enterprise | effectiveness

Sefydliadau gwirfoddol yn gweithio gydag **unigolion**, **teuleodd** a **chymunedau**

Gweithio ar gyfer sector gwirfoddol cadarn ac annibynnol yng Nghymru.

Dros y flwyddyn i ddod mae Talwrn yn mynd i ganolbwyntio ar dri maes craidd:

- herio a chefnogi seilwaith y sector gwirfoddol yng Nghymru
- cefnogi meithrin gallu ac adnoddau gyda sefydliadau gwirfoddol a'r sector yn ei gyfanrwydd er mwyn datblygu llais cryfach, mwy hyderus, annibynnol
- cael rhagor o arian i ddod i Gymru o ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol

Cyfleoedd digwyddiad

Mae CGGC, gyda Cyfranogaeth Cymru, yn cynnal hyfforddiant cydgynhyrchu yn ymarferol wedi'i gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg ddechrau mis Tachwedd, ar gael yn Saesneg ym mis Mai.
- Maent hefyd yn cynnig cwrs ar weithio mewn partneriaeth ym mis Chwefror 2018
- Mae CGGC hefyd yn cynnig gweithdy ar rwydweithio ym mis Tachwedd ac eto ym mis Mawrth
CYSYLLTWCH AM WYBODAETH
Mae Talwrn yn cynnal cyfres o sesiynau trafod a rhwydweithio anffurfiol sy'n canolbwyntio ar feithrin gallu mewn sefydliadau gwirfoddol a chodi arian o ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol. Os hoffech fynd i sesiwn – neu drefnu sesiwn – cysylltwch â Talwrn.

Gall Talwrn roi cymorth mentora i sefydliadau cymunedol a gwirfoddol. Rhowch wybod i ni os oes gennych ddiddordeb.

PWY YDYM NI?

Mae Talwrn yn cael ei arwain gan grŵp annibynnol o bobl sy'n gweithio yn y sector gwirfoddol yng Nghymru ac yn rhannu dymuniad i weld y sector yn tyfu mewn nerth ac adeiladu ar ei allu a'i adnoddau i drechu tlodi ac anfantais mewn cymunedau ledled Cymru. Nid ydym yn sefydliad ffurfiol – nac yn bwriadu bod yn sefydliad ffurfiol, ond yn hytrach rydym yn strwythur i hyrwyddo cefnogaeth gan gymheiriaid a helpu'r rhai sy'n gweithio ac yn gwirfoddoli yn y sector gwirfoddol yng Nghymru i helpu ei gilydd.

CYSYLLTWCH

Talwrn
c/o People and Work
CMC@Loudoun
Plas Iona, Butetown
Caerdydd
CF10 5HW

Ffôn: 029 2048 8536

talwrn@peopleandwork.org.uk

Darllen diddorol

Prosperity for All. Y mis diwethaf, datgelodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth genedlaethol i gymryd ei hymrwymiadau allweddol a'u rhoi mewn cyd-destun tymor hir o sut byddant yn cyd-fynd â gwasanaeth cyhoeddus ehangach Cymru. Mae'r strategaeth yn pwysleisio cynnwys pobl wrth lywio'r gwasanaethau maent yn eu defnyddio bob dydd. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar y pedair thema yn *Symud Cymru Ymlaen: h.y.* i Gymru fod yn 1. Ffyniannus ac yn Ddiogel 2. Iach ac yn Egnïol 3. Uchelgeisiol ac yn Dysgu 4. Unedig ac yn Gysylltiedig.
https://tinyurl.com/y8jgmzfd

What can Wales do: Asset Based Policies and the Foundational Economy. Mehefin 2017**.** Mae'r adroddiad hwn yn adolygu terfynau polisïau prif ffrwd a llunio polisïau sy'n canolbwyntio ar Fargen Ddinesig Bae Abertawe a diwydiannau'r genhedlaeth nesaf. Mae'n dadlau dros gynghrair o actorion gwladol ac anwladol i weithio tuag at chwalu'r rhwystrau rhwng polisïau economaidd a chymdeithasol a chynyddu lles diriaethol.
https://tinyurl.com/ybp8zjvv

Turnaround Towns: International Evidence. 2016. Mae'r adroddiad gan Ymddiriedolaeth Carnegie y DU yn dangos canfyddiadau astudiaeth sy'n cyflwyno wyth astudiaeth achos o drefi a oedd yn dioddef o galedi a'r camau a gymerwyd er mwyn mynd i'r afael â'u heriau lleol. Mae'r rhan fwyaf yn Unol Daleithiau America. Mae'n defnyddio themâu cydweithio ac arweinyddiaeth gref sy'n hollbwysig yn y broses gwblhau a photensial defnyddio dulliau tebyg yn y DU.
https://tinyurl.com/y7gnv8o2

The Future of Skills: Employment in 2030. Medi 2017. Mae'r adroddiad gan Nesta yn adeiladu ar drafodaethau ynghylch swyddi sydd mewn perygl o awtomeiddio ac yn mapio sut mae cyflogaeth yn debygol o newid ac yn cyflwyno canfyddiadau sy'n tynnu sylw at y sgiliau y mae'n debygol y bydd galw amdanynt yn y dyfodol.
https://tinyurl.com/y9chdfyc

Brexit: Implications for small and local charities and community groups. Mehefin 2017. Mae'r adroddiad yn cyflwyno canfyddiadau ymchwil ac yn cynnig argymhellion sy'n trafod dealltwriaeth elusennau a grwpiau o Brexit, newidiadau canfyddedig maent yn rhagweld y bydd yn rhaid iddynt eu gwneud i'w sefydliadau a'u pryderon ynghylch cyllid.
https://tinyurl.com/yd9248te

Rhowch wybod i ni os ydych wedi darllen unrhyw beth yn ddiweddar y credwch y byddai'n ddefnyddiol i eraill.

Canolbwyntio ar Gyllidwyr

Sefydliad Esmée Fairbairn yw un o'r gwneuthurwyr grantiau mwyaf yn y DU. Mae'r Sefydliad yn canolbwyntio ar waith sy'n targedu'r celfyddydau, plant a phobl ifanc, yr amgylchedd a newid cymdeithasol. Yn 2016, gwnaeth grantiau gwerth £42.4 miliwn. Maent hefyd yn cynnig buddsoddiad cymdeithasol ar ffurf mathau gwahanol o gyllid ad-daladwy i sefydliadau sy'n ceisio creu effaith gymdeithasol.

Ar y wefan www.esmeefairbairn.org.uk , mae Esmée Fairbairn yn dweud eu bod yn gweithio er mwyn gwella ansawdd bywyd i bobl a chymunedau drwy gyllido gwaith sy'n adeiladu cymdeithas gynhwysol, greadigol a chynaliadwy, yn hytrach nag yn ôl meini prawf rhagnodol. Mae'r wefan hefyd yn dangos ei 'damcaniaeth newid':

- Datgelu'r hyn nas gwelir a hyrwyddo'r hyn sy'n amhoblogaidd
- Cryfhau a chysylltu cymunedau er newid
- Sbarduno newid system
- Datgloi a galluogi potensial

Mae **Ymddiriedolaeth Tudor** yn ymddiriedolaeth elusennol sy'n gwneud grantiau sy'n cyllido ystod o sefydliadau sy'n cefnogi newidiadau cadarnhaol mewn bywydau pobl ac yn eu cymunedau ledled y DU. Mae ganddi ddiddordeb mewn gweithio gyda sefydliadau â dealltwriaeth gref o'r heriau a wynebir gan gymunedau mae'n eu cefnogi a'r gwahaniaeth y maent yn ceisio eu gwneud. Ar ei gwefan http://tudortrust.org.uk/ , mae'r Ymddiriedolaeth yn nodi ei bod yn cefnogi sefydliadau sy'n:

- Dangos nodweddion sefydliadol cadarnhaol
- Mynd i'r afael ag ymyleiddio
- Gwneud gwahaniaeth

Mae hefyd yn fodlon cefnogi gwaith nad yw wedi'i brofi â chanlyniadau ansicr ar yr amod ei fod yn gadarn ac yn ymarferol.

Mae hefyd yn awyddus i gefnogi gwaith sy'n datblygu ac yn hyrwyddo'r cysylltiadau a pherthnasoedd cymdeithasol sy'n gwneud cyfraniad mor bwysig i lesiant ac ansawdd bywyd unigolion, ac sy'n cryfhau cymunedau. Yn benodol, mae Ymddiriedolaeth Tudor yn gwneud pob ymdrech i helpu grwpiau llai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r rhai sydd ar ymylon cymdeithas gan annog cynhwysiant, integreiddio ac annibyniaeth. O ganlyniad i hynny, mae'n fwy tebygol o gyllido grwpiau ag incwm blynyddol sy'n llai nag £1m, gyda'r rhan fwyaf o'r rhain yn llai na £500,000 ar ffurf cyllid craidd.

Canolbwyntio ar Tir Coed

Mae Tir Coed yn elusen ac yn fenter gymdeithasol sydd wedi bod yn gweithio gyda chymunedau a choetiroedd yng Nghymru ers 1998. Mae wedi'i lleoli yng Ngheredigion ac mae'r elusen yn ymgysylltu â phobl y mae'n anodd eu cyrraedd gyda choetiroedd drwy wirfoddoli, hyfforddiant a gweithgareddau sy'n datblygu sgiliau ac yn gwella coetiroedd. Dros y blynyddoedd, mae wedi datblygu model ymgysylltu sy'n datblygu pobl wrth iddynt symud o ymgysylltu i gyflogaeth. Felly, yn ogystal â chefnogi unigolion sydd dan anfantais yng Nghymru wledig, mae'r elusen yn gwella iechyd y coetir a'i hygyrchedd er budd y gymuned gyfan. Mae Tir Coed yn ceisio gwneud newid parhaol cadarnhaol i fywydau'r rhai sy'n ymgysylltu â hwy a'r amgylchedd y dangosir canlyniadau hyn yn eu canlyniadau prosiect.

Ceir un enghraifft o'u gwaith yn y prosiect Egin (2010-2013) a oedd yn gweithio mewn 4 sir yng Nghymru er mwyn hyfforddi pobl ifanc wedi ymddieithrio ym maes adeiladu coed a rheoli coetir. Ymgysylltodd y prosiect â 150 o bobl ifanc NEET (nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant), gyda 70 yn ennill achrediad, 73% yn cymryd camau i gael cyflogaeth yn dilyn y cwrs, 64% nad ydynt yn NEET mwyach a chafodd 16 o safleoedd coetir eu gwella.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r wefan: http://tircoed.org.uk/

TIR COED